

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**



**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb
Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg
2013 - 2014**

Gallwch chi ofyn am y ddogfen yma mewn fformatau eraill.

Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur o liw gwahanol.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Cefndir	2
Y camau rydyn ni'n eu cymryd i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol	3
Maes Gwasanaeth: Llyfrgelloedd	5
Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Cymdeithasol- Gwasanaethau Oedolion.....	10
Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	12
Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Datblygu (Gwarchod y Cyhoedd gynt).....	14
Maes Gwasanaeth: Y Gwasanaeth Ieuenctid.....	16
Maes Gwasanaeth: Tai	18
Maes Gwasanaeth: Cofrestru.....	20
Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol.....	23
Datganiad ar effeithiolrwydd camau a gafodd eu cymryd i gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb.....	23
Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol.....	27
Ymgysylltu.....	27
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	29
Hyfforddiant.....	30
Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.....	31
Race Equality First	32
Gwasanaeth Cyngor ar Atal Gwahaniaethu.....	33

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Grŵp yr Enfys.....	33
Fforwm Hysbysu a System Hysbysu i Sipsiwn a Theithwyr	34
Cynllun y Tic Dwbl.....	35
Prosiect Awtistiaeth	36
Hyfforddiant Awtistiaeth.....	37
Prosiect Cyflogaeth	37
Prosiect Tai Gofal Ychwanegol i Bobl Hŷn	38
Diwygio Lles	38
Datblygu'r Celfyddydau	42
Chwaraeon Anabledd.....	44
Chwarae.....	44
Chwaraeon.....	45
Gwerthuso Swyddi	48
Cynllun y Gweithlu (2013 – 2017).....	48
Gwybodaeth benodedig am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflogau	49
Sut i gysylltu â ni	53
Atodiad 1	54
Monitro Cydraddoldebau o ran Darparu Gwasanaethau.....	54
Atodiad 2.....	63
Data a Dadansoddiad Monitro Cydraddoldeb 2013-2014	63
Atodiad 3.....	65
Ffurflen Monitro Cydraddoldeb – Cyflogaeth	65
Atodiad 4.....	68
Gwybodaeth Cyflogaeth	68
Atodiad 5.....	124
Cynllun Gweithredu Cyflogaeth	124

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthy ch chi am ein gwaith ym maes cydraddoldeb rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014. Rydyn ni'n gwneud hyn i gyflawni ein dyletswyddau o dan y canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (sef y 'ddyletswydd gyffredinol' fel y mae'n cael ei galw); a hefyd
- y dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru.

Rydyn ni'n dweud wrthy ch chi sut rydyn ni wedi casglu a defnyddio gwybodaeth i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- hybu cyfle cyfartal;
- meithrin cysylltiadau da.

Rydyn ni hefyd yn dweud wrthy ch chi am y canlynol:

- y cynnydd rydyn ni'n ei wneud gyda'n hamcanion cydraddoldeb;
- y bobl rydyn ni'n eu cyflogi;
- gwaith arall ym maes cydraddoldeb.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Cefndir

Rydyn ni wedi disgrifio ein prif waith ym maes cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities_strategic_equality_plan.aspx

Fe wnaethon ni gytuno ar y cynllun yma ym mis Mawrth 2012. Roedd rhaid i ni wneud nifer o bethau i ddatblygu ein cynllun. Rydyn ni'n rhestru'r prif gamau isod.

- Fe edrychon ni faint o wybodaeth oedd gyda ni am y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yn arbennig roedden ni am wybod pa **grwpiau gwarchodedig** oedd yn defnyddio ein gwasanaethau.
- Fe wnaethon ni gyfarfod gyda sefydliadau lleol i weld a oedd meysydd y bydden ni'n gallu gweithio arnyn nhw gyda'n gilydd.
- Fe edrychon ni ar gynlluniau eraill i weld a oeddent yn cynnwys camau gweithredu yr oedd angen eu rhoi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Fe wnaethon ni drefnu digwyddiadau i ni gael cwrdd gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio dros anghenion grwpiau gwarchodedig. Fe aethon ni i'w cyfarfodydd nhw os oedden nhw'n methu dod i'n cyfarfodydd ni.
- Fe wnaethon ni ymgynghori gyda'r cyhoedd, staff ac undebau llafur.
- Fe siaradon ni gyda phobl i drafod beth ddylai ein blaenoriaethau fod.

Fe helpodd hyn ni i benderfynu ar ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, rydyn ni'n rhoi camau gweithredu mewn cynlluniau gwasanaeth. Y cynlluniau yma sy'n arwain gwaith pob maes gwasanaeth (fel y Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Gweladwy a'r Gwasanaethau Cymdeithasol). Rhaid i bob gwasanaeth fonitro cynnydd gyda'r camau gweithredu yma. Maen nhw'n cyflwyno adroddiadau ar hyn i reolwyr a Chynghorwyr bob tri mis.

Arweinydd y Cyngor sy'n arwain ar faterion cydraddoldeb. Mae cyfarwyddwyr yn arwain yn eu maes gwasanaeth eu hunain.

Rydyn ni'n perthyn i rwydweithiau cydraddoldeb fel ein bod yn gwybod am y materion a'r canllawiau diweddaraf. Er enghraifft, rydyn ni'n perthyn i rwydweithiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Y camau rydyn ni'n eu cymryd i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydyn ni wedi bod yn casglu gwybodaeth sy'n dangos pwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau am beth amser. Dydyn ni ddim wastad wedi gwneud hyn yn yr un ffordd ar draws y Cyngor. Hefyd, dydyn ni ddim wedi bod yn casglu gwybodaeth am bob grŵp gwarchoddedig. Am y rheswm yma, fe wnaethon ni lunio ffurflen newydd a siarad gyda rheolwyr i egluro pam ei bod yn bwysig eu bod nhw'n ei defnyddio.

Yn 2011, fe edrychom ni ar wybodaeth o wasanaethau allweddol:

- llyfrgelloedd;
- tai;
- gwarchod y cyhoedd;
- budd-dal tai;
- y gwasanaethau cymdeithasol.

Yn 2012, fe wnaethon ni ychwanegu rhai meysydd gwasanaeth newydd:

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

- cofrestru;
- y dreth gyngor;
- y gwasanaeth ieuencid.

Yn 2013, fe wnaethon ni ddarparu mwy o fanylion am yr wybodaeth roedden ni'n ei chasglu, yn enwedig Gwasanaethau Datblygu. Rydyn ni hefyd wedi cynnwys dadansoddiad cyntaf o gwynion. Byddwn ni'n datblygu hyn ymhellach ar gyfer yr adroddiad nesaf.

Pan edrychon ni ar yr wybodaeth roedden ni'n ei chasglu, fe wnaethon ni ystyried:

- y gymhariaeth rhwng data 2011, 2012 a 2013;
- y systemau a oedd yn cael eu defnyddio i gasglu'r data;
- adroddiadau sampl.

Fe helpodd hyn ni i ddod o hyd i fylchau yn yr wybodaeth. Fe siaradon ni am y bylchau yma gyda rheolwyr. Fe wnaethon nhw egluro pam eu bod nhw'n meddwl y byddai'n anodd gofyn cwestiynau ychwanegol am nodweddion gwarchoddedig defnyddwyr gwasanaethau.

Roedd hyn yn golygu ein bod ni'n gallu egluro wrth reolwyr pam fod angen iddyn nhw gasglu'r wybodaeth. Fe ddefnyddion ni'r canllawiau gan Stonewall i wneud hyn. Gallwch chi weld y canllawiau yn Atodiad 1. Mae'r ffurflen y gwnaethon ni ei defnyddio i gasglu gwybodaeth yn Atodiad 2.

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu sut y mae'r wybodaeth wedi cael ei defnyddio i gyrraedd tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Maes Gwasanaeth: Llyfrgelloedd

Nodweddion gwarchodedig y cafodd data ei gasglu arnynt		
2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Oedran Hil Anabledd Y Gymraeg	Oedran Hil Anabledd Y Gymraeg	Oedran Hil Anabledd Y Gymraeg

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data

Rydyn ni'n rhedeg adroddiad ar y gronfa ddata ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae hyn yn rhoi ciplun o'r gronfa ddata o ddefnyddwyr ar y diwrnod hwnnw. Mae data'n newid bob dydd wrth i bobl ymuno, adnewyddu neu ganslo eu haelodaeth. Rydwn ni'n rhoi'r data ar y system mewn amser real felly mae'r gronfa ddata'n cael ei diweddarau ar unwaith.

Bob tair blynedd, rydwn ni'n cynnal arolwg o'n defnyddwyr. Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus CIPFA yw enw hwn. Rydwn ni'n cynnal arolwg o oedolion, pobl ifanc a phlant. Rydwn ni'n cynnal arolwg o bobl sy'n defnyddio'r llyfrgell, nid dim ond aelodau o'r llyfrgell.

Yn 2012 y cafodd ein harolwg diwethaf ei gynnal. Fe gawson ni ymatebion oddi wrth 2196 o oedolion sy'n defnyddio ein llyfrgelloedd. Fe ofynnwn ni'r holl gwestiynau am gydraddoldebau sy'n cael eu gofyn fel arfer pan fo rhywun yn cofrestru. Fe wnaethon ni ychwanegu cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol. Roedden ni'n bwriadu cynnal yr arolwg yn hydref 2014. Fe wnaethon ni ohirio hyn tan hydref 2015 gan ein bod ni wedi bod yn ymgynghori gyda phobl am ddyfodol llyfrgelloedd.

Rydwn ni'n casglu'r data i gefnogi a datblygu gwasanaethau llyfrgell. Dyma rai enghreifftiau o'r ffordd rydwn ni'n ei ddefnyddio.

- Rydwn ni'n rheoli polisïau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag oedran. Er enghraifft, rhoi benthyg DVDs a gemau cyfrifiadur â chyfyngiad oedran i bobl dros 12, 15 a 18 oed.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

- Rydyn ni'n rheoli consesiynau fel llyfrau llafar am ddim i bobl â nam ar eu golwg.
- Rydyn ni'n asesu pa mor dda rydyn ni'n darparu gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol o bobl. Er enghraifft, fe wnaethon ni ymchwilio sut i sefydlu'r gwasanaeth benthyca gartref.
- Fe ddefnyddion ni wybodaeth i'n hysbysu am ddewisiadau llyfrau mewn ieithoedd eraill.
- Rydyn ni'n defnyddio data am oedran i'n helpu i asesu gwasanaethau i blant yn arbennig.
- Rydyn ni'n defnyddio data i'n helpu i dargedu gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Rydyn ni'n canolbwyntio ar gasglu data rydyn ni'n gallu ei ddefnyddio i gynllunio a datblygu gwasanaethau. Oedran, rhywedd, anabledd a dewis iaith fu'r meysydd allweddol hyd yn hyn.

Sylwadau

Mae gyda ni gynlluniau i ddefnyddio'r data'n fwy ystyrlon yn y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gofyn i bobl am wasanaethau llyfrgell. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i ni er mwyn i ni allu trefnu gwasanaethau llyfrgell yn y dyfodol. Efallai y bydd hyn yn effeithio ar broffil defnyddwyr llyfrgelloedd.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Maes Gwasanaeth: Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Nodweddion gwarchodedig y cafodd data ei gasglu arnynt		
2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Oedran Rhyw Anabledd	Oedran Rhyw Anabledd	Oedran Rhyw Anabledd
<p>Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data</p> <p>Rydyn ni'n casglu'r data i gyfrifo hawl i Fudd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae oedran person yn effeithio ar y swm y mae ganddynt hawl iddo. Os yw rhywun yn cael rhai mathau o fudd-daliadau anabledd, efallai y bydd hyn yn effeithio ar y swm y mae ganddynt hawl iddo hefyd.</p> <p>Rydyn ni'n gallu edrych ar ddata oedran ar gyfer mathau o denantiaid, hynny yw, tenantiaid y cyngor, tenantiaid cymdeithas dai neu denantiaid preifat. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i ni gynllunio ar gyfer effaith diwygiadau eraill i'r gyfundrefn lles. Mae'r rhain yn gallu effeithio ar y gyllideb Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.</p> <p>Rydyn ni'n monitro achosion yn rheolaidd i chwilio am dueddiadau o ran pwy sy'n hawlio neu newidiadau mewn amgylchiadau. Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i'n helpu i gynllunio ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Rydyn ni'n gwneud hyn gan fod dim Budd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i wneud hynny droson ni erbyn hyn. Rydyn ni'n monitro Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn rheolaidd er mwyn i ni allu cynllunio ein cyllidebau.</p> <p>Rydyn ni'n diweddarau data ar oedran ac anabledd wrth i ni ddod i wybod amdano. Mae hyn yn digwydd pan fyddwn ni'n cael cais neu pan fo rhywun yn dweud wrthyn ni am newid mewn amgylchiadau. Y data yr edrychon ni arno ar gyfer yr adroddiad yma yw'r data ar 31 Mawrth 2014.</p>		

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Rydyn ni'n casglu data o ffurflenni cais ar gyfer hawliadau. Rydyn ni'n storio'r data hwn ar Academy. System yw hon i gadw data ar fudd-dal tai a gostyngiadau'r dreth gyngor.

Sylwadau

Rydyn ni'n gofyn am lawer o wybodaeth a dogfennau pan fo pobl yn gwneud hawliad. Gall peth o hyn ymddangos yn ymwthiol ac mae o natur sensitif. Am y rheswm hwn, dydyn ni ddim yn bwriadu gofyn am wybodaeth am nodweddion gwarchoddedig ar hyn o bryd.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

**Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Cymdeithasol- Gwasanaethau
Oedolion**

Nodweddion gwarchoddedig y cafodd data ei gasglu arnynt		
2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Oedran Rhyw Hil Anabledd Crefydd Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Crefydd Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Crefydd Y Gymraeg
<p>Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data</p> <p>Rydyn ni'n casglu data gan bobl fel arfer pan fyddant yn defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol am y tro cyntaf. Mewn rhai achosion, rydyn ni'n gwneud hyn yn hwyrach yn ystod y broses asesu. Rydyn ni'n diweddarau'r data pan fydd angen i ni. Rydyn ni'n casglu llawer o'r data, fel oedran, i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau. Rydyn ni'n adrodd ar y data yma yn y datganiadau blynyddol. Mae arnon ni angen gwybodaeth o gategorïau eraill, fel iaith, i helpu gyda'r broses asesu.</p> <p>Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i'n helpu i ddeall y galw am wasanaethau. Rydyn ni hefyd yn ei defnyddio i gomisiynu gwasanaethau. Mae'n ein helpu i ddatblygu cynlluniau fel y Strategaeth Pobl Hŷn a'r Strategaeth Anableddau Dysgu. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar y model ar gyfer darparu gwasanaethau.</p> <p>Rydyn ni wedi dadansoddi'r data sydd gyda ni ar oedran. Rydyn ni wedi edrych ar lefelau'r galw o fewn y grwpiau oedran. Mae gwaith yn dal i gael ei wneud o hyd. Rydyn ni wedi cymharu ansawdd y data ar gyfer y ddwy flynedd. Rydyn ni'n monitro data ar oedran a chategori'r defnyddiwr gwasanaethau yn y broses rheoli achosion. Rydyn ni'n gwneud cynlluniau i wella'r broses casglu data.</p>		

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn casglu data ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- cyfeiriadedd rhywiol (bydden ni'n gallu casglu'r data yma yn y system bresennol);
- ailbennu rhywedd (dydyn ni ddim yn gallu casglu'r data yma yn y system bresennol);
- beichiogrwydd (dydyn ni ddim yn gallu casglu'r data yma yn y system bresennol).

Does dim cynlluniau i gasglu'r data yma yn y dyfodol. Rydyn ni'n ystyried y nodweddion yma yn y broses rheoli achosion, lle mae hynny'n briodol.

Sylwadau

Byddai'n bosibl i ni wella ansawdd peth o'r data. Dydyn ni ddim wastad yn ei gofnodi nac yn ei diweddarau. Mae gweithdrefnau i wirio ein bod ni'n cofnodi'r wybodaeth yma. Rydyn ni'n gwirio hyn yn rheolaidd.

Cryfderau:

- Mae'r tîm yn monitro cofnodion yn rheolaidd.

Meysydd i'w gwella:

- Ansawdd y data.
- Cofnodi a diweddarau data.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

**Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau
Plant a Phobl Ifanc**

Nodweddion gwarchoddedig y cafodd data ei gasglu arnynt

2011 - 2012	2011 - 2012	2011 - 2012
Oedran Rhyw Hil Anabledd Crefydd Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Crefydd Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Crefydd Y Gymraeg

Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data

Rydyn ni'n casglu data gan bobl fel arfer pan fyddant yn defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol am y tro cyntaf. Mewn rhai achosion, rydyn ni'n gwneud hyn yn hwyrach yn ystod y broses asesu. Rydyn ni'n diweddarau'r data pan fydd angen i ni. Rydyn ni'n casglu llawer o'r data, fel oedran, i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau. Rydyn ni'n adrodd ar y data yma yn y datganiadau blynyddol. Mae arnon ni angen gwybodaeth o gategoriâu eraill, fel iaith, i helpu gyda'r broses asesu.

Rydyn ni wedi cymharu ansawdd y data a gafodd ei gofnodi ar gyfer y flwyddyn adrodd yma a'r flwyddyn adrodd ddiwethaf. Mae nifer yr achosion agored wedi gostwng oherwydd newidiadau mewn gweithdrefnau. Rydyn ni'n monitro oedran a rhywedd plant a, lle mae hynny'n berthnasol, eu hanabledd. Rydyn ni'n gwneud hyn fel rhan o'r broses rheoli achosion. Rydyn ni'n gallu gweld nad ydyn ni'n cofnodi data cydraddoldebau mewn ffordd gyson.

Mae'n bwysig ein bod ni'n gwybod oedran y person ifanc. Mae hyn yn ein helpu ni i recriwtio gofalmwr maeth. Mae hefyd yn ein helpu ni i gomisiynu gwasanaethau preswyl.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn casglu data ar yr holl nodweddion gwarchoddedig. Dyma rai o'r rhesymau dros hyn.

- Cyfeiriadedd rhywiol – does dim angen i ni wybod hyn pan fyddwn ni'n ystyried a yw person ifanc yn gymwys i gael gwasanaethau ai peidio.
- Ailbennu rhywedd – does dim angen i ni wybod hyn pan fyddwn ni'n ystyried a yw person ifanc yn gymwys i gael gwasanaethau ai peidio.
- Beichiogrwydd – does dim cynlluniau i gasglu'r data yma ar hyn o bryd, er ein bod ni'n ei ystyried fel rhan o'r broses rheoli gofal.

Sylwadau

Mae angen i ni wella ansawdd y data rydyn ni'n ei gofnodi. Byddwn ni'n rhoi gweithdrefnau ar waith i fonitro'r broses gofnodi.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Maes Gwasanaeth: Gwasanaethau Datblygu (Gwarchod y Cyhoedd gynt)

Nodweddion gwarchodedig y cafodd data ei gasglu arnynt		
2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Oedran Rhyw Hil Anabledd	Oedran Rhyw Hil Anabledd Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Y Gymraeg

Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data

Mae'r Gwasanaethau Datblygu yn cwmpasu ystod eang o feysydd gwasanaeth, gan gynnwys:

- diogelwch bwyd;
- warden cŵn;
- iechyd a diogelwch;
- trwyddedu;
- llygredd sŵn;
- rheoli plâu;
- rheoli llygredd;
- tai'r sector preifat;
- safonau masnachu.

Rydyn ni'n arolygu ein cwsmeriaid ym mis Mawrth bob blwyddyn i weld pa mor fodlon ydyn nhw ar ein gwasanaethau. Ar ôl i ni gasglu'r data, rydyn ni'n edrych ar

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

y sylwadau y mae pobl wedi'u gwneud. Mae ein rheolwyr yn trafod yr adborth hwn ac yn nodi sut y gallwn ni wella gwasanaethau.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn holi am gyfeiriadedd rhywiol, crefydd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd na mamolaeth. Rydyn ni'n anfon yr arolwg at gwsmeriaid ar ôl iddyn nhw ddefnyddio gwasanaeth. Ein teimlad ni yw, pe baen ni'n gofyn am yr wybodaeth yma, efallai na fyddai pobl am roi adborth i ni.

Sylwadau

Rydyn ni'n bwriadu ymestyn yr arolwg cwsmeriaid. Rydyn ni am ofyn i fwy o gwsmeriaid beth maen nhw'n ei feddwl i weld a fyddwn ni'n cael ymateb mwy amrywiol.

Yn adroddiad y flwyddyn nesaf, rydyn ni'n bwriadu cynnwys gwybodaeth am wasanaethau eraill. Byddwn ni'n cynnwys gwybodaeth am y Gwasanaeth Parciau Gwledig. Byddwn ni hefyd yn adrodd ar y Gwasanaeth Tocynnau Bws Rhatach gan ei fod wedi symud i'n maes gwasanaeth ni.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Maes Gwasanaeth: Y Gwasanaeth Ieuenctid

Nodweddion gwarchoddedig y cafodd data ei gasglu arnynt		
2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Oedran Rhyw Hil Anabledd Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Y Gymraeg
<p>Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data</p> <p>Rydyn ni'n casglu data ar bob aelod newydd wrth iddyn nhw ymuno â'r Gwasanaeth Ieuenctid. Rydyn ni'n ei ddefnyddio i fonitro popeth rydyn ni'n ei wneud ac i wella gwasanaethau.</p> <p>Dyma rai enghreifftiau o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gyda ni wasanaethau arbennig i bobl ifanc ag anableddau. • Rydyn ni'n rhedeg gweithgareddau clwb ieuenctid i siaradwyr Cymraeg. • Rydyn ni'n cynnig hyfforddiant mewn gwaith ieuenctid i bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg. • Rydyn ni'n cynnig cyfleoedd i wirfoddoli i bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg. 		

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae'r data'n rhoi peth gwybodaeth i ni am y bobl ifanc sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

- Mae gan 21.4% o'r aelodau beth gwybodaeth o'r Gymraeg neu maen nhw'n siaradwyr Cymraeg rhugl

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

- Mae 56.3% yn wrywaidd
- Mae 43.7% yn fenywaidd
- Mae 72.4% yn wyn
- Mae 12.8% wedi dynodi bod ganddynt nodwedd sy'n ymwneud â chynhwysiant neu anabledd
- Mae'r mwyafrif rhwng 15 ac 19 oed

Sylwadau

Y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n dadansoddi'r data'n fwy manwl.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Maes Gwasanaeth: Tai

Nodweddion gwarchodedig y cafodd data ei gasglu arnynt		
2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Oedran Rhyw Hil Anabledd Cyfeiriadedd Rhywiol Crefydd neu Ddaliadau Ailbennu Rhywedd Beichiogrwydd a Mamolaeth Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Cyfeiriadedd Rhywiol Crefydd neu Ddaliadau Ailbennu Rhywedd Beichiogrwydd a Mamolaeth Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil Anabledd Cyfeiriadedd Rhywiol Crefydd neu Ddaliadau Ailbennu Rhywedd Beichiogrwydd a Mamolaeth Y Gymraeg

Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data

Rydyn ni'n casglu data yn y meysydd canlynol:

- Ceisiadau Homes4U
- Rheoli Tai
- Digartrefedd
- Cefnogi Pobl

Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu ar gyfer Cefnogi Pobl i oleuo'r Cynllun Comisiynu Lleol. Mae'r cynllun yma'n rhan o'r cylch comisiynu a chaffael.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n cyflwyno Cynllun Comisiynu Lleol a Rhanbarthol. Mae hwn yn argymhell beth ddylen ni ei gomisiynu yn y flwyddyn ariannol ganlynol. Rydyn ni'n cynllunio beth mae angen i ni ei wario a sut y byddwn yn rheoli hyn.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud penderfyniadau da am y gwasanaethau rydyn ni eu comisiynu ac yn eu prynu. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i ni ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ein gwasanaethau. Mae hefyd yn ein helpu ni i ddarparu'r gwerth gorau am arian cyhoeddus.

Rhaid i ni ffurfio barnau yn ein proses gynllunio ar gyfer Cefnogi Pobl. Rydyn ni'n ffurfio'r barnau hyn trwy ddadansoddi'r wybodaeth sydd gyda ni. Rydyn ni'n meddwl sut y mae pobl yn defnyddio ein gwasanaethau a beth y mae ei angen arnynt. Rydyn ni hefyd yn meddwl am y dulliau mwyaf priodol o ran sut rydyn ni'n cael ac yn darparu gwasanaethau yn yr ardal leol.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Rydyn ni'n gofyn i ddefnyddwyr ein gwasanaethau am bob un o nodweddion gwarchoddedig defnyddwyr ein gwasanaethau. Rydyn ni wedi gwneud gwelliannau i'n cronfa ddata felly rydyn ni'n gallu adrodd ar hyn ar gyfer tenantiaethau newydd o fis Ebrill 2014.

Sylwadau

Rydyn ni am ddechrau dadansoddi'r data rydyn ni'n ei gasglu ar gyfer Homes4U a Rheoli Tai.

Bydden ni'n gallu edrych ar nodweddion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cyngor ar Dai neu'r Gwasanaeth Digartrefedd.

Bydden ni'n gallu defnyddio'r wybodaeth yma i wella gwasanaethau.

Dydyn ni ddim yn dadansoddi'r holl ddata ar gyfer cefnogi pobl. Dydyn ni ddim yn cynnwys pobl ac arnynt angen gwasanaeth cymorth cysylltiedig â thai sy'n seiliedig ar lety neu bobl sy'n cael gwasanaeth o'r fath. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ar gyfer yr agwedd yma ar y gwasanaeth wneud y dadansoddiad hwn. Rydyn ni'n gofyn iddyn nhw wneud hyn yn ein contract gyda nhw ar gyfer darparu'r gwasanaethau yma.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Maes Gwasanaeth: Cofrestru

Nodweddion gwarchoddedig y cafodd data ei gasglu arnynt		
2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Ddim yn berthnasol	Oedran Rhyw Hil Crefydd Anabledd Beichiogrwydd a mamolaeth Y Gymraeg	Oedran Rhyw Hil: grŵp ethnig Hil: hunaniaeth genedlaethol Anabledd Cyfeiriadedd Rhywiol Crefydd/cred Beichiogrwydd/mamolaeth Y Gymraeg

Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data

Mae pobl yn cofrestru priodasau, partneriaethau sifil, genedigaethau, marwolaethau, dinasyddiaeth a thystysgrifau hanesyddol gyda ni. Pan ydyn nhw'n gwneud hynny, rydyn ni'n gofyn iddyn nhw gwblhau arolwg bodlonrwydd. Fel rhan o hyn, rydyn ni'n gofyn iddyn nhw am eu nodweddion gwarchoddedig.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Dydyn ni ddim wedi dadansoddi'r data rydyn ni wedi'i gasglu hyd yn hyn.

Sylwadau

Yn y dyfodol, byddwn ni'n canolbwyntio ar edrych ar y data o briodasau a phartneriaethau sifil. Mae'r rhain yn feysydd lle gall pobl wneud dewisiadau. Bydd hyn yn ein helpu i ddarganfod a yw pobl o bob rhan o'r gymuned yn defnyddio'r gwasanaeth. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy gymharu ein data gyda data lleol a chenedlaethol.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Maes Gwasanaeth: Cwynion

Nodweddion gwarchoddedig y cafodd data ei gasglu arnynt

2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Ddim yn berthnasol	Oedran Rhyw Hil: grŵp ethnig Hil: hunaniaeth genedlaethol Anabledd Cyfeiriadedd Rhywiol Crefydd/daliadau Ailbennu Rhywedd Beichiogrwydd/mamolaeth Y Gymraeg (o 1 Ionawr 2013)	Oedran Rhyw Hil: grŵp ethnig Hil: hunaniaeth genedlaethol Anabledd Cyfeiriadedd Rhywiol Crefydd/daliadau Ailbennu Rhywedd Beichiogrwydd/mamolaeth Y Gymraeg (tan 31 Rhagfyr 2013)

Sut y gwnaethon ni gasglu a defnyddio'r data

Ym mis Chwefror 2014, fe anfonon ni arolwg at bobl a oedd wedi gwneud cwyn yn 2013. Roedden ni am wybod pa mor fodlon oedden nhw ar ein gwasanaeth. Fel rhan o hyn, fe ofynnion ni i bobl am eu nodweddion gwarchoddedig.

Roedd cyfradd ymateb o 27% ar gyfer y data. O'r rhai a wnaeth gwyno, dywedodd 37% fod anabledd yn cyfyngu llawer neu ychydig ar eu gweithgareddau. Dywedodd 5% fod ganddynt allu da neu eu bod yn rhugl yn y Gymraeg.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Rydyn ni'n gofyn i ddefnyddwyr ein gwasanaethau am bob un o'u nodweddion gwarchoddedig. Yn y dyfodol, byddwn ni'n monitro'r data wrth fynd ymlaen. Bydd hyn yn golygu ein bod ni'n gallu adrodd ar y flwyddyn ariannol yn ogystal â'r flwyddyn galendr.

Sylwadau

Yn y dyfodol, byddwn ni'n dadansoddi data trwy ei gymharu â data'r cyfrifiad. Os

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

byddwn ni'n dod o hyd i ddata arall sy'n berthnasol, byddwn ni'n defnyddio hwn hefyd. Byddwn ni'n meddwl a yw'r bobl sy'n gwneud cwynion yn cynrychioli'r gymuned leol. Wedyn byddwn ni'n meddwl sut y gallwn ni fynd i'r afael â bylchau rydyn ni'n eu hadnabod.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol

Mae rhai o'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth yn cynnwys:

- staff yn gofyn i ddefnyddwyr am wybodaeth bersonol wyneb yn wyneb;
- defnyddwyr ddim am gwblhau ffurflen arall ar ben ffurflen gais hir;
- pryder bod arolygon cyfyngedig ddim yn adlewyrchu darlun cywir.

Rydyn ni'n annog rheolwyr i egluro pa mor bwysig yw'r wybodaeth yma. Mae'n gallu cael ei defnyddio i helpu i wella gwasanaethau.

Datganiad ar effeithiolrwydd camau a gafodd eu cymryd i gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb

Dyma amlinelliad byr sy'n disgrifio sut y gwnaethon ni ddatblygu ein hamcanion. Gallwch chi weld manylion llawn ar gyfer hyn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

- Fe ddefnyddion ni ymchwil genedlaethol i'n helpu i ddeall y materion yma. Er enghraifft, fe edrychon ni ar yr adroddiadau 'Pa Mor Deg yw Cymru?' a 'Mwy Nag Ystadegyn'. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gynhyrchodd yr adroddiadau hyn.
- Fe edrychon ni a oedd gyda ni unrhyw wybodaeth yn y Cyngor i ddweud mwy wrthyn ni.
- Fe siaradon ni gyda grwpiau sy'n gwybod am fuddiannau grwpiau gwarchoddedig.
- Fe wnaethon ni ymgynghori gyda'n staff ni ein hunain a'r cyhoedd.
- Fe gytunon ni ar yr amcanion cydraddoldeb y bydden ni'n gweithio arnynt am y 4 blynedd nesaf.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Yn dilyn hyn, fe gytunon ni ar ein hamcanion cydraddoldeb. Dyma grynodedb ohonynt.

- Rydyn ni'n dymuno gwella'r ffordd rydyn ni'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth cydraddoldeb. Bydd hyn yn ein helpu i fonitro pwy sy'n defnyddio, a phwy sydd ddim yn defnyddio, ein gwasanaethau. Byddwn ni'n gallu gweld a oes angen i ni wneud unrhyw welliannau.
- Rydyn ni am ysgrifennu dogfennau mewn iaith glir fel eu bod yn hawdd i'w darllen a'u deall.
- Rydyn ni am gynnwys pobl o grwpiau gwarchoddedig yn y broses o ddatblygu, adolygu neu newid gwasanaethau.
- Rydyn ni am godi ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac anghenion grwpiau gwarchoddedig.
- Rydyn ni am annog mwy o bobl i hysbysu ynghylch achosion o aflonyddu a gwahaniaethu trwy ddefnyddio'r llinell gymorth troseddau casineb.
- Rydyn ni am annog defnydd gwell o wasanaethau cymorth cam-drin domestig.
- Rydyn ni am ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bwch cyflog rhwng y rhywiau.

Rydyn ni'n dangos ein cynnydd yn y tabl isod.

Crynodeb o Gynnydd gyda'r Amcanion Cydraddoldeb	
Amcanion y Cyngor	Cynnydd
Casglu data a monitro mynediad at wasanaethau	<ul style="list-style-type: none"> • Fe ddatblygon ni ffurflen i gasglu data. Fe wnaethon ni seilio ein ffurflen ar yr un yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i datblygu. • Fe wnaethon ni gynnal arolwg o'r staff yn haf 2013 (arolwg cyfrifiadur a ffurflenni papur).

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

	<ul style="list-style-type: none"> • Fe weithion ni gyda nifer o wasanaethau i gasglu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau. Llyfrgelloedd, tai, gwarchod y cyhoedd, budd-dal tai a'r gwasanaethau cymdeithasol oedd y rhain. • Rydyn ni'n gweithio yn awr gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, Gwasanaeth y Dreth Gyngor a'r Gwasanaeth Cofrestru hefyd. • Rydyn ni hefyd yn bwriadu monitro ein system gwynion a meysydd ychwanegol yn y Gwasanaethau Datblygu. • Rhaid inni ofalu ein bod yn storio gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfrinachol, gyda phrosesu diogelu data a hyfforddiant wedi'u sefydlu.
<p>Gwella mynediad at ddogfennau cyhoeddus</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaethon ni adolygu'r canllawiau sydd gyda ni. Fe edrychom ni am ffyrdd i'w gwella. • Fe wnaethon ni beth gwaith ymchwil i weld beth ddylen ni ei gynnwys yn y canllawiau. • Fe wnaethon ni ailddrafftio ein canllawiau.
<p>Codi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau cydraddoldeb ac anghenion grwpiau gwarchoddedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaethon ni gasglu wybodaeth am ein hanghenion hyfforddi trwy gynnal arolwg. • Fe wnaethon ni gynllunio'r gwaith yr oedd angen i ni ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny. • Fe wnaethon ni drefnu sesiynau hyfforddi byr a gweithgareddau e-ddysgu. • Fe wnaethon ni gynnal sesiynau hyfforddi yn y lle y mae pob tîm yn gweithio os oedden nhw'n

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

	<p>methu mynd i'r sesiynau canolog.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaethon ni drefnu hyfforddiant ar anghenion grwpiau gwarchoddedig penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth ar anghenion pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, pobl drawsryweddol a hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar. • Rydyn ni'n parhau i ddarparu gweithdai Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth mewn ysgolion a chlybiau ieuentid. • Rydyn ni'n cefnogi'r gystadleuaeth creu calendr i ysgolion sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn gan Race Equality First.
<p>Cynnwys gwahanol grwpiau o bobl wrth ddatblygu, adolygu neu newid polisi neu wasanaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rydyn ni wedi cynhyrchu canllawiau newydd ar sut i ymgysylltu. • Rydyn ni'n ymgysylltu gyda phobl i'n helpu i ddeall effaith ein gwaith.
<p>Annog mwy o bobl i hysbysu am achosion o aflonyddu a gwahaniaethu (troseddau casineb)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rydyn ni wedi adolygu ein system ar gyfer hysbysu am droseddau casineb. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda staff ym maes cydlyniant cymunedol, y Fro Ddiogelach a'n canolfan gyswllt i'n helpu ni i wneud hyn. • Rydyn ni wedi darparu hyfforddiant troseddau casineb.
<p>Cynyddu ymwybyddiaeth a hyder i ddefnyddio gwasanaethau cymorth cam-drin domestig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gyda ni berthynas gref gydag Atal y Fro. Hwn yw'r unig wasanaeth cam-drin domestig ym Mro Morgannwg.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

	<ul style="list-style-type: none"> • Rydyn ni'n dweud wrth bobl am y gwasanaeth hwn pan ydyn ni'n mynd allan yn y gymuned. Rydyn ni'n dweud wrth bobl ble y gallant fynd i gael help. • Rydyn ni'n cynhyrchu ac yn dosbarthu posteri ar gam-drin domestig. • Mae gyda ni bolisi gweithle ar gam-drin domestig. Rydyn ni wedi hyfforddi rheolwyr ar y polisi yma.
<p>Datblygu cynllun gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gyda ni gynllun gwerthuso swyddi. • Rydyn ni wedi rhoi camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu i'n helpu ni i leihau'r bwlch cyflog. • Rydyn ni wedi cytuno gyda'r undebau llafur y byddwn ni'n ystyried y mater yma mewn mwy o fanylder.

Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol

Ymgysylltu

Mae gyda ni Dîm Cyfathrebu. Mae'r tîm yma'n rhoi cymorth i ni hysbysu pobl am ein gwaith a dod i wybod eu barn am y ffordd y mae'n effeithio arnynt. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd

Digwyddiadau

Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu. Rydyn ni'n argraffu arolygon mewn fformat hawdd i'w ddarllen. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ffontiau mwy. Rydyn ni'n dweud wrth bobl eu bod yn gallu gofyn am ddogfennau

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

mewn ieithoedd a fformatau eraill. Rydyn ni'n cyhoeddi ein harolygon ar-lein gyda dolen i fersiwn mewn testun plaen.

Pwy ydyn ni'n eu cynnwys

Rydyn ni'n ceisio targedu'r trigolion y bydd newidiadau yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn effeithio arnynt fwyaf. Rydyn ni'n cynnwys pobl o grwpiau gwarchodedig. Rydyn ni'n dod o hyd i'r bobl hyn trwy ddefnyddio cyfeiriadur o grwpiau lleol. Mae hyn yn rhoi ymateb amrywiol i ni.

Sefydliadau eraill

Fe wnaethon ni rannu adborth gyda phartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Fe wnaethon ni hyn i helpu i oleuo gwaith sefydliadau eraill yn y Fro. Fe wnaethon ni hefyd sefydlu panel dinasyddion ar y cyd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (Barn y Fro). Mae hyn yn ein helpu ni i gydgyssylltu ein gwaith ymgynghori gyda'n partneriaid. Mae hefyd yn golygu ein bod ni'n gofyn i grwpiau ac unigolion gymryd rhan mewn llai o arolygon a chyfarfodydd.

Grwpiau mewnol

Mae nifer fach o grwpiau defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, mae grŵp defnyddwyr ar gyfer chwaraeon i bobl anabl. Mae grŵp pobl hŷn hefyd ac rydyn ni'n ymgynghori gyda'r grŵp yma'n rheolaidd. Rydyn ni'n ymgynghori gyda'r grwpiau hyn pan fo hynny'n briodol.

Egwyddorion gweithgarwch ymgysylltu

Yn 2012, fe wnaethon ni gytuno i ddefnyddio'r 'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru'. Rydyn ni'n ceisio gwneud yn siŵr bod unrhyw waith sy'n cael ei wneud gan ein cyngor ni'n dilyn yr egwyddorion hyn. Canllawiau i reolwyr eu dilyn pan fyddant yn ymgysylltu gyda phobl yn y gymuned yw'r rhain.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Ymgysylltu diweddar

Rydyn ni wedi ymgysylltu gyda nifer o drigolion ifanc a hŷn ar brosiectau diweddar. Mae'r rhan fwyaf o'u hadborth wedi bod yn gadarnhaol. Yn 2013, fe ofynnnon ni i fwy o grwpiau gwarchoddedig am adborth ar ein gwaith nag o'r blaen. Rydym ni'n falch bod gwelliant yn nifer y grwpiau gwarchoddedig rydym ni'n eu cynnwys.

Meysydd i'w gwella

Fe hoffen ni gynnwys ystod ehangach byth o grwpiau gwarchoddedig yn ein gwaith, er enghraifft sipsiwn a theithwyr. Dydyn ni ddim wedi llwyddo i ymgysylltu gyda'r grŵp arbennig yma eto.

Beth ydyn ni'n ei wneud i wella

Fe wnaethon ni sefydlu strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Mae ein Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cefnogi'r strategaeth yma. Bydd hyn yn ein helpu ni i gydgyssylltu ein gwaith ymgysylltu. Bydd hefyd yn ein helpu ni i wneud ein gweithgarwch ymgysylltu yn gyson ar draws y Fro. Rydym ni'n ceisio gwneud ein harolygon ar-lein yn fwy hygyrch. Rydym ni'n defnyddio mwy o luniau i helpu pobl sy'n llai hyderus wrth ddarllen. Rydym ni'n cyhoeddi ein harolygon mewn llawer o fformatau i geisio cyrraedd cymaint o bobl â phosibl.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae gyda ni system ar gyfer asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig ers nifer o flynyddoedd. Rydym ni'n ei hadolygu ac yn ei gwella o bryd i'w gilydd. Rydym ni'n cyhoeddi canlyniadau ein hasesiadau ar ein gwefan.

Rydym ni'n parhau i roi cymorth i reolwyr feddwl am eu gwaith yn y ffordd yma. Rydym ni'n darparu hyfforddiant ar sut i gynnal asesiadau. Mae modiwl e-ddysgu i bobl ddysgu ar-lein sut i'w wneud. Rydym ni'n gofyn iddyn nhw ddangos eu ffordd o feddwl mewn cofnod ffurfiol y gallwn ni ei gyhoeddi.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi bod yn bwysig i ni feddwl sut y gallai'r toriadau mewn cyllidebau effeithio ar ein gwasanaethau. Wrth i ni baratoi cyllidebau, rydyn ni'n meddwl sut y gallai newidiadau effeithio ar grwpiau gwarchoddedig. Rydyn ni hefyd yn meddwl sut y gallwn ni leihau'r effeithiau anffafriol arnynt. Rydyn ni'n cyhoeddi asesiad ar ein gwefan sy'n dangos sut y mae'r gyllideb yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig.

Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi gorfod meddwl hefyd am ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn. Y rheswm dros hyn yw ein bod yn gwybod, bob blwyddyn am yr ychydig flynyddoedd nesaf, y bydd llai o arian i'w wario ar wasanaethau. Wrth i ni wneud hyn, rydyn ni'n meddwl sut y bydd hyn yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig ac rydyn ni'n siarad gyda nhw amdano.

Os hoffech chi weld yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb rydyn ni wedi eu cyhoeddi, defnyddiwch y ddolen yma:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/Equality-Impact-Assessments.aspx

Hyfforddiant

Yn 2012, fe ofynnion ni i'n rheolwyr feddwl am eu hanghenion hyfforddiant ac anghenion hyfforddiant y bobl yn eu tîm. Fe ddefnyddion ni arolwg i wneud hyn. Fe helpodd hyn ni i gynllunio hyfforddiant a fyddai'n diwallu eu hanghenion.

O ganlyniad i hyn, yn 2013, fe wnaethon ni lansio rhaglen o sesiynau hyfforddi byr i wneud yn siŵr bod staff yn gwybod am gyfraith newydd ym maes cydraddoldeb. Rydyn ni wedi gwneud cynnydd da gyda'r gwaith yma hyd yn hyn, ond mae angen i ni barhau i gynnal sesiynau fel bod mwy o'n staff yn gallu cymryd rhan.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Rydyn ni'n parhau i gynnig modiwlau e-ddysgu. Mae un o'r rhain yn dweud pethau sylfaenol wrth staff y mae angen iddyn nhw eu gwybod am gydraddoldeb. Mae'r llall yn dweud wrth staff sut i asesu effaith eu gwaith ar grwpiau gwarchoddedig (asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb).

Mae pobl yn gallu edrych ar y rhain ar y cyfrifiadur wrth eu desg. Mae hyn yn gallu ei gwneud yn haws i rai pobl wneud yr hyfforddiant. Rydyn ni'n monitro pwy sydd wedi cwblhau'r math yma o hyfforddiant.

Dydy rhai aelodau o staff ddim yn gallu mynd i'r sesiynau hyfforddiant a does ganddyn nhw ddim mynediad at fodiwlau e-ddysgu. I'r aelodau yma o staff, rydyn ni'n darparu llyfryn sy'n esbonio'r pethau allweddol y mae angen iddyn nhw eu gwybod. Rydyn ni'n monitro pwy sydd wedi gwneud yr hyfforddiant yn y ffordd yma. Fe wnaethon ni gynnwys yr wybodaeth yma yn ein hadroddiad i'r uwch dîm rheoli.

Rydyn ni wedi trefnu mathau eraill o hyfforddiant eleni. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar, hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn drawsryweddol a hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Rydyn ni'n talu i aelod o staff gwblhau'r cam cyntaf o hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain.

Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Elusen yw hon sy'n gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o hiliaeth a homoffobia. Mae'n defnyddio pêl-droedwyr a sêr eraill o fyd y campau fel modelau rôl i wneud hyn. Maen nhw'n siarad gyda phlant a phobl ifanc am hiliaeth ac yn darparu sesiynau hyfforddiant pêl-droed.

Yn 2013 -2014, roedd 79 o weithdai mewn 39 o ganolfannau addysg, gan gynnwys:

- ysgolion cynradd;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

- ysgolion uwchradd;
- clybiau ieuenctid;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- unedau diogel.

Fe wnaethon nhw gwrdd â 3343 o blant a phobl ifanc mewn 33 o ysgolion a 6 chlwb ieuenctid.

Ar ôl y gweithdy, dywedodd 100% o'r bobl ifanc eu bod yn gwybod mwy am hiliaeth. Fe wnaeth y gweithdai eu helpu i adnabod a rhoi'r gorau i ddefnyddio a derbyn sylwadau hiliol. Pan ofynnwyd iddyn nhw dri mis yn ddiweddarach, dywedodd 61% o'r bobl ifanc fod y gweithdai wedi eu helpu i drin pobl yn well, a dim ond 3% ddywedodd na fydden nhw'n cymryd unrhyw gamau gweithredu pe bydden nhw'n dyst i hiliaeth.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn rhedeg cystadleuaeth flynyddol. Cofrestrodd disgyblion o 12 ysgol yn y Fro ac fe gymerodd 9 ysgol ran mewn amrywiaeth o waith celf a gwaith a oedd yn defnyddio cymysgedd o gyfryngau.

Roedd dau enillydd o'r Fro yn y seremoni wobrwyo. Roedd gwobrau'n cynnwys talebau, cyfrifiaduron llechi, tocynnau i gemau a'r cyfle i gwrdd â thîm rygbi Cymru. O ganlyniad, mae'r gystadleuaeth yma'n eithriadol o boblogaidd gyda phlant a phobl ifanc.

Race Equality First

Fe wnaethon ni roi dalu i Race Equality First ein helpu gyda gwaith ar gydraddoldebau. Fe helpodd ni i:

- sefydlu grŵp ar gyfer pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a thrawsryweddol;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

- rhoi cyhoeddusrwydd i'r llinell gymorth Troseddau Casineb trwy gynhyrchu a dosbarthu posteri;
- gwneud gwaith allgymorth a sefydlu grŵp i fewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop.

Fe wnaeth hefyd gynhyrchu calendr gwrth-hiliaeth. Cymerodd pymtheg o ysgolion o Fro Morgannwg ran yn y gystadleuaeth. Roedd saith enillydd. Rhoddodd Race Equality First waith celf yr enillwyr yn y calendr. Rhoddodd dystysgrifau a thalebau i'r plant a'u hysgolion am eu gwaith hefyd.

Gwasanaeth Cyngor ar Atal Gwahaniaethu

Ers mis Medi 2012, rydyn ni wedi bod yn talu i Cyngor Ar Bopeth (CAB) ddarparu'r gwasanaeth hwn ar ein rhan. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Mae ar gael un diwrnod yr wythnos yn y swyddfa yn y Barri. Mae'r gwasanaeth cyfrinachol yn cynnig:

- cyngor sy'n deg ac yn rhad ac am ddim;
- gweithwyr profiadol sydd wedi cael hyfforddiant ar wahaniaethu yn ymdrin â gwaith achosion;
- gwasanaeth galw heibio bob bore dydd Iau;
- cyngor ar amseroedd eraill.

Grŵp yr Enfys

Rydyn ni'n parhau i roi cymorth i Grŵp yr Enfys ddod yn annibynnol. Menywod o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yw ei aelodau.

Mae'r grŵp wedi helpu menywod i ddefnyddio a threfnu gwasanaethau hamdden. Nawr maen nhw'n gallu mynychu sesiynau nofio a

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

dosbarthiadau ioga i fenywod yn unig. Fe wnaethon nhw ddechrau dosbarthiadau Zumba hefyd ac maen nhw'n cwrdd yn rheolaidd nawr.

Rydyn ni'n gallu ymgynghori gyda nhw am wasanaethau'r Cyngor o bryd i'w gilydd.

Fforwm Hysbysu a System Hysbysu i Sipsiwn a Theithwyr

Ers ychydig o flynyddoedd mae gyda ni Fforwm Sipsiwn a Theithwyr. Rydyn ni'n parhau i gefnogi hwn. Mae'n cynnwys pobl o wasanaethau sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- Diogelwch Cymunedol;
- Iechyd yr Amgylchedd;
- Ystadau;
- Gwasanaethau Cyfreithiol;
- Gwasanaethau Cymorth i Ddisgyblion;
- Uned Cymorth i Leiafrifoedd Heddlu De Cymru.

Mae'r grŵp yn gwneud yn siŵr bod systemau'n bodoli i gefnogi sipsiwn a theithwyr pan fyddant yn cyrraedd yr ardal. Mae systemau'n bodoli i hysbysu am sipsiwn a theithwyr sydd newydd gyrraedd; asesu anghenion lles; a rhannu gwybodaeth.

Rydyn ni'n monitro ein systemau hysbysu am safleoedd. Pan fo swyddogion yn darganfod bod safle Sipsiwn neu safle Teithwyr newydd, maen nhw'n hysbysu ein canolfan gyswllt Cyswllt Un Fro. Rydyn ni'n rhannu'r wybodaeth yma gydag aelodau eraill y grŵp.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Rydyn ni'n parhau i fod â chytundeb lefel gwasanaeth gyda Phrosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd. Y sefydliad yma sy'n sefydlu'r cyswllt cyntaf gyda theuluoedd Teithwyr pan fyddant yn cyrraedd yr ardal. Mae'n casglu gwybodaeth am faterion fel anghenion lles a hyd yr arhosiad. Mae'n rhoi'r wybodaeth yma i'n canolfan gyswllt er mwyn i'r ganolfan gyswllt drosglwyddo'r wybodaeth i aelodau o'r fforwm. Rydyn ni wedi defnyddio'r system ar rai achlysuron. Rydyn ni'n parhau i wirio a gwella'r system.

Yn ystod 2013 – 14, fe wnaethon ni adolygu'r aelodaeth i wneud yn siŵr ein bod yn gwybod pa bobl i gysylltu â nhw ym mhob sefydliad. Fe wnaeth hyn ein galluogi i barhau i weithio'n effeithiol lle'r oedd materion yn bodoli.

Cynllun y Tic Dwbl

Rydyn ni'n ateb gofynion Cynllun y Tic Dwbl. Cynllun yw hwn sy'n helpu pobl anabl pan fyddan nhw'n ymgeisio am swyddi. Lle mae ymgeisydd anabl yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, rydyn ni'n rhoi cyfweiliad i'r person hwnnw.

O dan y cynllun, rydyn ni'n helpu pobl ag anableddau mewn nifer o ffyrdd.

- **Cyfweiliadau hygyrch**

Rydyn ni'n cael gwared â rhwystrau i gyfweiliadau trwy ddarparu pethau fel: cyfleusterau parcio ceir; dehonglwyr iaith arwyddion; Braille; mynediad i gadeiriau olwyn; system dolen glywed; neu gyfieithydd ar y pryd.

- **Lleoliad cyfweiliadau**

Rydyn ni'n trefnu ymweliad â lleoliad y cyfweiliad cyn dyddiad y cyfweiliad. Wedyn rydyn ni'n gallu gwneud addasiadau cyn y cyfweiliad os oes eu hangen ar bobl.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

- **Datblygu galluoedd**

Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod cyfle i bobl ddatblygu a defnyddio eu galluoedd. Rydwn ni'n gwneud hyn trwy ein system Adolygu Datblygiad Personol.

- **Cymorth i gyflogeion**

Rydyn ni'n rhoi cymorth i gyflogeion aros mewn cyflogaeth os ydyn nhw'n dod yn anabl.

- **Codi ymwybyddiaeth**

Rydyn ni'n trefnu hyfforddiant i helpu staff i wybod mwy am anabledd.

- **Adolygu'r cynllun**

Rydyn ni'n gwirio'n rheolaidd sut mae'r cynllun yn rhedeg ac yn cynllunio gwelliannau. Rydwn ni'n dweud wrth y Gwasanaeth Cyflogaeth am ein cynnydd a'n cynlluniau pan fo hynny'n ofynnol.

Prosiect Awtistiaeth

Fe wnaethon ni arwain prosiect peilot i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth. Fe wnaethon ni hi'n bosibl iddyn nhw ddefnyddio'r Pwll Rhyngwladol heb i unrhyw bobl eraill fod yn bresennol. Fe gawson ni arian ar gyfer hyn fel rhan o Strategaeth Awtistiaeth Llywodraeth Cymru.

Fe wnaethon ni ddarparu gwersi nofio hefyd i helpu pobl ifanc sydd ddim yn gallu nofio i ddefnyddio'r pwll. Grŵp o'r enw Thrive sy'n rhedeg y prosiect. Cymerodd digon o bobl ifanc ran i'w gwneud yn bosibl i'r gwasanaeth barhau heb gymorth ariannol pan ddaeth y cyllid grant i ben.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Hyfforddiant Awtistiaeth

Rydyn ni wedi darparu hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion. Mae nifer o dimau â gwybodaeth dda am awtistiaeth wedi bod yn rhan o ddatblygu'r hyfforddiant hwn. Mae hyn yn cynnwys y tîm awtistiaeth yn y Gwasanaethau Oedolion a staff arbenigol o Ysgol Ashgrove.

Rydyn ni hefyd wedi darparu hyfforddiant ar bethau fel y 'llwybr diagnostig awtistiaeth' newydd i blant.

Rydyn ni wedi hyfforddi nifer o dimau, gan gynnwys:

- ymwelwyr iechyd;
- nyrsys ysgol;
- staff addysg;
- y tîm teuluoedd a phlant (FACT);
- y ganolfan i bobl ddigartref yng Nghaerdydd;
- y tîm anhwylderau bwyta yn y bwrdd iechyd.
- Dietegwyr
- Darparwyr cefnogi pobl
- Staff Canolfannau Gwaith

Prosiect Cyflogaeth

Fe wnaethon ni redeg prosiect peilot i ddarparu seminarau sgiliau gwaith ar gyfer oedolion ar y sbectrwm awtistiaeth. Rhoddodd Llywodraeth

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Cymru grant i dalu am y prosiect yma. Rydyn ni'n gwybod bod oedolion ar y sbectrwm awtistiaeth yn ei chael yn anodd iawn cael swydd a'i chadw.

Roedd y seminarau'n llwyddiannus. Mae'r deunyddiau a gafodd eu creu ar gyfer y gweithdai sgiliau gwaith yn cael eu defnyddio gan staff Canolfan Byd Gwaith. Mae ein staff yn rhedeg y gweithdai ar y cyd gyda staff Canolfannau Gwaith yn y canolfannau gwaith.

Prosiect Tai Gofal Ychwanegol i Bobl Hŷn

Rydyn ni wedi agor prosiect newydd cyffrous i bobl hŷn yng nghanol y Barri. Cynllun Gofal Ychwanegol i bobl hŷn yw Golau Caredig. Hwn yw'r cynllun cyntaf o'i fath ym Mro Morgannwg. Symudodd y tenantiaid cyntaf i mewn ar ddiwedd mis Medi 2014.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn, rhaid i denantiaid fod dros 55 oed. Rhaid bod angen peth cymorth ychwanegol arnynt hefyd. Mae'r cynllun yn darparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chymorth gofal cymdeithasol. Mae'r cymorth hwn yn gallu addasu pan fo anghenion pobl yn newid.

Mae'r cynllun yn darparu 42 o gartrefi newydd. Mae cymysgedd o randai ag un a dwy ystafell wely i bobl eu rhentu. Mae'r cynllun yn anelu at ddarparu mynediad i bobl anabl. Mae hyn yn helpu i ddiwallu anghenion trigolion yn y tymor hir.

Mae caffi a siop trin gwall o fewn y cynllun. Mae pobl o'r gymuned ehangach yn gallu defnyddio'r rhain.

Diwygio Lles

Dim ond ar ychydig o bobl ym Mro Morgannwg y gwnaeth y cap budd-daliadau effeithio. Fodd bynnag, pan wnaeth effeithio ar bobl, roedd yr effaith yn fawr.

Fe wnaethon ni barhau i redeg Diwrnodau Cyngor Ariannol. Roedd y gweithdai hyn ar gyfer pobl sy'n cael budd-daliadau lles. Fe ddywedon ni wrthyn nhw am newidiadau i fudd-daliadau fel y 'dreth ystafell wely'.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Roedd nifer o sefydliadau yn y gweithdai yn ogystal â'r Cyngor. Roedd Cyngor Ar Bopeth, yr Undeb Credyd a chymdeithasau tai yno. Fe wnaethon nhw roi gwybodaeth i bobl am ddyledion, tai, cyflogaeth ac effeithlonrwydd ynni.

Roedd y bobl a ddaeth i'r gweithdai a'r bobl a oedd yn gyfrifol am redeg y gweithdai yn meddwl eu bod nhw'n ddefnyddiol iawn.

Fforwm y Strategaeth Pobl Hŷn

Mae'r Fforwm yn cefnogi anghenion pobl hanner cant oed a throsodd ym Mro Morgannwg. Mae'n gweithio'n lleol ac yn genedlaethol.

Mae chwe thasglu yn cyfarfod fel rhan o'r fforwm: gwahaniaethu ar sail oedran; celf, crefft a hamdden; iechyd; tai; y cyfryngau a chyhoeddusrwydd; a chludiant. Mae'n ymateb i ymarferion ymgynghori. Mae'n cefnogi ymgyrchoedd. Mae'n rhedeg llawer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Rydyn ni'n cefnogi'r Fforwm mewn amrywiaeth o ffyrdd. Un o'r prif ffyrdd rydyn ni'n ei gefnogi yw trwy Gydgyssylltydd ein Strategaeth. Rydyn ni hefyd yn rhoi peth arian i'r Fforwm i helpu gyda threuliau, digwyddiadau, ei wefan ac i gyhoeddi cylchgrawn.

Rydyn ni'n ymgynghori gyda'r fforwm yn rheolaidd. Rydyn ni'n ymgynghori ar ein cynlluniau ac ar ddatblygu ein gwasanaethau.

Rydyn ni'n gwahodd rhai o aelodau ein Fforwm i fod yn rhan o ymarferion tendro. Digwyddodd hyn pan wnaethon ni gynnal proses dendro ar gyfer y cyfleuster gofal ychwanegol.

Isod rydyn ni'n darparu rhai enghreifftiau o waith gan y Fforwm rydyn ni wedi ei gefnogi.

Digwyddiad Cynllunio

Fe helpon ni i redeg gweithdy am ddiwrnod cyfan fel bod Fforwm Strategaeth 50+ y Fro yn gallu cynllunio ar gyfer y deuddeng mis nesaf. Roedd ein Hyrwyddwr Pobl Hŷn yn y gweithdy. Fe wnaeth y Fforwm

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

drafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys sut i ddenu mwy o amrywiaeth o bobl i ymuno â'r Fforwm. Bu'r Fforwm yn meddwl hefyd sut y byddai'n gallu defnyddio'r cyfryngau a'r cyfryngau digidol cymdeithasol. Dyma un o'r ffyrdd y byddai'n gallu codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n bwysig i bobl dros hanner cant.

Gŵyl Gwanwyn

Mewn partneriaeth gyda'r Rhwydwaith Addysg Oedolion a'r Hen Ysgol, Sili, fe wnaeth y Fforwm gynnal digwyddiad celfyddydol. Pwrpas y digwyddiad oedd dathlu Gŵyl Gwanwyn ym mis Mai. Roedd amrywiaeth o weithdai, er enghraifft animeiddio, canu, ysgrifennu creadigol a chrefftau.

Lansio'r Wefan

Fe wnaeth y Fforwm ddatblygu a lansio gwefan newydd:
<http://valeopf.webplus.net>. Mae'r wefan yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i bobl dros hanner cant a gwybodaeth am waith y Fforwm.

Digwyddiad Gofal Diwedd Oes

Fe wnaethon ni roi cymorth i'r Fforwm gynnal digwyddiad ym mis Mehefin 2013 i drafod gofal diwedd oes. Roedd cyflwyniadau gan amrywiaeth o arbenigwyr o fyd meddygaeth, y gyfraith a chrefydd. Fe wnaeth y panel o arbenigwyr siarad am y materion a gwahodd cwestiynau. Daeth mwy na 60 o bobl i'r digwyddiad.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Fe wnaethon ni gefnogi Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Fforwm. Arweinydd y Cyngor agorodd y cyfarfod. Rhoddodd y Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu sgwrs ddiddorol. Rhoddodd amlinelliad o waith y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'i dîm. Roedd sesiwn holi ac ateb, ac yna cafwyd etholiad i ddewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Diwrnod Ymwybyddiaeth Fyd-eang o Gam-drin Pobl Hŷn

Fe wnaeth y Fforwm gynnal digwyddiad yn Llyfrgell y Barri i gefnogi Diwrnod Ymwybyddiaeth Fyd-eang o Gam-drin Pobl Hŷn. Roedd stondinau yno gan amrywiaeth o sefydliadau fel y Cyngor a darparwyr yn y trydydd sector. Roeddent yn gallu ateb cwestiynau pobl.

Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn

Fe wnaeth y Fforwm gynnal diwrnod hwyl i hybu lles ar 1 Hydref. Digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn oedd hwn. Roedd stondinau yno i bobl gael gwybodaeth a chyngor. Roedd amrywiaeth o weithdai gan gynnwys Zumba a Cherdded Llychlynnaidd.

Datganiad Dulyn ar gyfer Cymunedau sy'n Ystyried Anghenion Pobl Hŷn

Ym mis Ebrill 2013, fe wnaethon ni lofnodi Datganiad Dulyn ar gyfer Cymunedau sy'n Ystyried Anghenion Pobl Hŷn. Ni oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Mae hyn yn ein cysylltu â Sefydliad Iechyd y Byd. Mae wedi ei gwneud yn bosibl i Gymru gael gwobr 3 seren Ewropeaidd. Rydyn ni'n dal i gefnogi'r Rhaglen Heneiddio'n Iach.

Y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn (Grŵp Cyngori'r Gweinidog)

Rydyn ni'n eistedd ar y fforwm uchod. Yn 2013, fe wnaethon ni gyd-arwain ar yr adroddiad cyngori ar gyfer y Gweinidog ar ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Pwrpas hwn oedd cyngori sut i gynnal ymarferion ymgysylltu gyda'r cyhoedd mewn perthynas â phobl hŷn yn y dyfodol.

Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia

Ystyr cymuned sy'n cefnogi pobl â dementia yw un sy'n ddiogel ac yn groesawus i bobl â dementia a'u gofalwyr.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Rydyn ni'n anelu at fod yn gymuned o'r math yma. Rydwn ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i wneud hyn. Mae'r sefydliadau eraill yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Unedig Caerdydd a'r Fro a'r trydydd sector.

Un o'r pethau rydwn ni'n eu gwneud i gyflawni hyn yw bod â hyrwyddwyr dementia. Mae'r rhain yn bobl sy'n cael hyfforddiant fel eu bod yn gallu mynd allan i'r gymuned i gynghori pobl trwy egluro sut y gallant helpu. Er enghraifft, maen nhw'n briffio pobl mewn siopau, gyrwyr tacsï, a swyddogion cymorth cymunedol. Maen nhw'n egluro sut i adnabod arwyddion dementia a sut i roi cymorth i bobl sy'n defnyddio'u gwasanaethau.

Cynhwysiant Digidol

Mae aelodau o Fforwm 50+ y Fro wedi hyfforddi i ddod yn hyrwyddwyr digidol. Yn y rôl yma, byddan nhw'n helpu pobl eraill i ddysgu sut i ddefnyddio technoleg. Er enghraifft, maen nhw'n dangos i bobl sut i ddefnyddio ipads, e-bost a'r Rhyngwrdd.

Digwyddiad Gwrthlodi

Ym mis Gorffennaf 2013, daeth dros 70 o bobl i ddigwyddiad gwrthlodi. Bu Achub y Plant yn gweithio gyda'r Cyngor i gynllunio'r digwyddiad. Roedd sgwrsiau ar anghydraddoldebau ym myd iechyd ac addysg. Roedd rhai gweithdai hefyd.

Fe wnaethon ni ddefnyddio'r wybodaeth o'r digwyddiad i'n helpu ni i ddatblygu ein Cynllun Cyflawni ar gyfer y Strategaeth Gymunedol. Fe wnaethon ni ddefnyddio'r wybodaeth hefyd yn y digwyddiad i randdeiliaid gan y Fforwm Gwasanaethau Lleol ym mis Hydref.

Datblygu'r Celfyddydau

Rydwn ni'n hybu cydraddoldeb a mynediad rhwydd yn ein holl waith. Weithiau, mae angen i ni ganolbwyntio ar rai meysydd penodol. Rydwn ni'n gwneud hyn i wneud yn siŵr ein bod ni'n cynnwys pobl sydd heb

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

fynediad at y celfyddydau fel arfer. Gallwch chi weld rhai enghreifftiau o hyn isod.

Arddangosfa Cofio'r Holocaust: 'Hineni' 11 Ionawr – 8 Chwefror 2014

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2014, fe wnaethon ni ddangos 'The Hineni Project'. "Dyma fi" mewn Hebraeg yw 'Hineni'.

Roedd yr arddangosfa hon yn disgrifio'r siwrneiau lu y mae pobl wedi gorfod eu gwneud, ac y mae pobl yn dal i'w gwneud. Roedd yn dangos ffotograffau a storïau o bobl sy'n byw yng Nghymru ac ym Mhrydain. Roedd rhai o'r rhain yn bobl a oedd wedi goroesi'r holocaust ac roedd rhai yn ffoaduriaid.

Cymdeithas Celfyddydau'r Merched – Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 18 Chwefror – 22 Mawrth 2014

Fe wnaethon ni ddathlu 'Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2014' gyda Chymdeithas Celfyddydau'r Merched. Fe wnaethon ni hyn trwy ddangos gwaith celf gan fenywod o bob rhan o Gymru. Fe wnaethon ni ei arddangos yn yr Oriel Gelf Ganolog, Y Barri.

Roedd yn gyfle i artistiaid benywaidd arddangos eu gwaith mewn oriel broffesiynol i lawer o bobl. Roedd gyda ni weithdai ysgrifennu i ddechreuwr. Roedd y rhain yn agored i unrhyw un a oedd am ddatblygu ei sgiliau ysgrifennu. Cafodd y gweithdai eu rhedeg gan Meg Kingston, sy'n awdur ac artist anabl. Cymerodd deuddeg o fenywod ran yn y gweithdai.

Bod yn Greadigol Weithgar

Rydyn ni'n gweithio fel rhan o Clymu Celf gyda chynghorau eraill yn y rhanbarth. Fe wnaethon ni adnabod dau grŵp a oedd ar gyrion cymdeithas yn ein tyb ni. Oedolion â Dementia a Phlant sy'n Derbyn Gofal oedd y rhain. Fe wnaethon ni gynllunio'r prosiect 'Bod yn Greadigol Weithgar' iddyn nhw.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Nod y prosiect oedd defnyddio'r celfyddydau fel offeryn i wella ansawdd bywyd. Roedden ni am gysylltu pobl â'u cymunedau. Roedden ni am ddangos y gwahaniaeth y byddai'r celfyddydau'n gallu ei wneud i bobl yn y grwpiau hyn. Roedden ni hefyd am ddangos y byddai'r celfyddydau'n gallu gwella'u hiechyd a'u lles.

Oedolion â Dementia

Fe wnaethon ni redeg prosiect i bobl hŷn â dementia sy'n byw yn Nhŷ Dyfan. Fe weithion ni gyda'n hadran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thŷ Dyfan i wneud hyn. Fe weithion ni gyda 'Live Music Now! Wales' a 'Triptych' i fynd â cherddoriaeth atyn nhw. Sefydliad sy'n mynd â cherddoriaeth at bobl sydd ddim yn profi cerddoriaeth fyw yn aml yw 'Live Music Now! Wales'. Triawd yw 'Triptych'. Mae un person yn chwarae'r sielo, un yn chwarae'r piano ac un yn canu mewn arddull operatig.

Fe wnaethon nhw chwarae caneuon roedd pobl yn debygol o'u cofio. Roedden nhw'n annog pobl i uno yn y canu, ac i glapio a dawnsio os oeddent yn gallu. Fe wnaeth y caneuon, y storïau a'r sgysiau helpu pobl i gofio eu bywydau, cartrefi eu teuluoedd, lleoedd roeddent wedi byw a phethau roeddent yn mwynhau eu gwneud. Roedd hyn yn rhan bwysig o'r prosiect.

Chwaraeon Anabledd

Chwarae

Yn ystod gwyliau ysgol, mae ein Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae yn rhedeg cynlluniau chwarae. Mae plant yn gallu mynychu'r cynllun chwarae os oes anabledd ganddynt neu os nad oes anabledd ganddynt. Rydyn ni'n rhoi cymorth i blant os oes ei angen arnynt fel eu bod yn gallu ymuno yn yr hwyl.

Rydyn ni'n gallu rhoi help mewn llawer o ffyrdd. Rydyn ni'n gallu darparu: cymorth personol; gofal personol; nyrs i roi meddyginiaeth; help gyda chludiant; ac offer arbennig.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i ni i helpu i roi cymorth i blant anabl. Mae hyn yn dod o'r rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf'. Mae llawer o blant wedi mynychu'r cynlluniau chwarae ac mae'r adborth ar y cynlluniau wedi bod yn dda.

Chwaraeon

Mae'r Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae yn rhedeg rhaglenni sydd ar gael i unrhyw un ymuno ynddynt. Maen nhw hefyd yn rhedeg rhaglenni ar gyfer grwpiau arbennig. Rydyn ni'n rhestru rhai o'r rhain isod.

- **Cynllun Campau'r Ddraig**

Cynllun i blant 7-11 oed yw hwn. Mae'r tîm yn gweithio gyda phlant ag anableddau mewn ysgolion arbennig. Maen nhw'n hyfforddi disgyblion hŷn i weithio gyda phlant llai. Mae'r plant yn datblygu sgiliau trwy wneud hyn, fel dysgu sut i arwain a sut i gyfathrebu'n dda. Mae'r tîm hefyd yn annog mwy o ferched i ymuno yn y gweithgareddau.

- **Cynllun '5 x 60'**

Cynllun i blant 12-16 oed yw hwn. Mae cynllun ar gyfer sesiynau 60 munud bum gwaith yr wythnos ym mhob ysgol uwchradd. Mae hyn yn ychwanegol at chwaraeon yn amserlen yr ysgolion. Mae'r cynllun yn anelu at annog mwy o ferched a mwy o ddisgyblion anabl i gymryd rhan mewn chwaraeon.

- **Gwobr Rhuban Insport**

Mae'r Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae wedi ennill Gwobr Rhuban Insport. Mae wedi ennill y wobwr oherwydd ein hymrwymiad

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

i chwaraeon i bawb. Rydyn ni'n gweithio tuag at ennill y wobr efydd. Byddwn ni'n cyflwyno ein gwaith ar hon yn gynnar yn 2015. Bydd panel o bobl o Insport yn penderfynu a ydyn ni wedi cyrraedd safon y wobr efydd.

Ym mis Ionawr 2014, cafodd ein tîm hyfforddiant. Fe helpodd hyn ni i feddwl sut i addasu gweithgareddau fel bod mwy o bobl yn gallu cymryd rhan.

- **Swyddog Chwaraeon Anabledd**

Mae'r Swyddog Chwaraeon Anabledd yn helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau'r Tîm Datblygu Chwaraeon. Mae'n gwneud hyn fel bod aelodau'r tîm yn gallu datblygu cyfleoedd chwaraeon sydd ar gael i unrhyw un fanteisio arnynt.

Mae'r tîm yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon ym Mro Morgannwg. Mae'n helpu clybiau i sefydlu cynlluniau hirdymor. Mae hyn yn cynnwys meddwl sut i helpu pobl anabl a merched i gymryd rhan.

- **Rhaglen Chwaraeon Anabledd**

Mae'r rhaglen yn cynnwys: 39 o glybiau cymunedol; 16 o weithgareddau mewn canolfannau hamdden a chanolfannau dydd; ac 14 o weithgareddau mewn ysgolion.

Mae llawer o'n clybiau wedi cael achrediad Rhuban Insport: mae gan 4 clwb achrediad aur; mae gan 5 clwb achrediad efydd; mae gan 1 clwb achrediad arian. Mae hyn yn dangos eu hymrwymiad a'u gallu i ddarparu chwaraeon ar gyfer pobl anabl.

Mae gwersi nofio i bobl anabl mewn canolfannau hamdden. 'Swimability' yw enw'r sesiynau yma.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Rydyn ni wedi rhedeg pedwar cwrs hyfforddi Cynhwysiant Anabledd eleni: un i Staff Datblygu Chwaraeon a Chwarae, un i Glybiau Chwaraeon Cymunedol yn y Fro; a dau i hyfforddwyr chwaraeon ifanc sy'n rhan o'n cynllun 'Hyfforddwyr y Dyfodol'.

Mae'r Tîm yn gweithio gyda hyfforddwyr, gwirfoddolwyr, pobl ifanc ac athrawon lleol. Mae'n eu helpu nhw i ddeall sut i gynnwys pobl anabl yn eu gweithgareddau chwaraeon.

- **Prosiectau Partneriaeth**

Rydyn ni'n gweithio gyda nifer o bartneriaid i ddatblygu pobl anabl dalentog. Rydwn ni wedi gwneud hyn trwy nifer o brosiectau (sy'n cael eu rhestru isod).

Mae gyda ni Academi Nofio Anabledd. Mae hon ar gyfer pobl anabl dalentog. Rydwn ni'n ei rhedeg gyda Nofio Cymru a Parkwood Leisure.

Mae gyda ni gysylltiadau gydag Academi Pêl-droed Anabledd Cymru.

Mae gyda ni gysylltiadau gydag Academi Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru.

- **Gwaith ychwanegol**

Rydwn ni'n defnyddio lluniau cadarnhaol mewn posteri a hysbysebion ar gyfer ein canolfannau hamdden.

Rydwn ni'n rhedeg cynllun i atgyfeirio pobl i wneud ymarfer corff er mwyn helpu pobl i wella ar ôl salwch ac anaf.

Fe wnaethon ni hyfforddi swyddogion cyfranogi o Undeb Rygbi Cymru. Fe wnaeth hyn eu helpu i ddeall sut i gynnwys pobl anabl yn eu gweithgareddau.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Fe wnaethon ni gefnogi gweryll cyntaf Undeb Rygbi Cymru yn y gwyliau i bobl anabl.

Fe weithion ni gydag Ashgrove, Ysgol Erw'r Delyn ac Ysgol Maes Dyfan i redeg Paragemau Ysgolion y Fro.

Gwerthuso Swyddi

Mae gyda ni gynllun gwerthuso swyddi. Mae'r cynllun hwn ar gyfer staff sy'n cael eu talu dan y cydgytundeb Statws Sengl. Mae'n gwneud yn siŵr bod ffordd systematig o benderfynu ar gyflog ar gyfer swydd. Mae hyn yn golygu bod cyflog cyfartal yn cael ei dalu am waith sydd â gwerth cyfartal. Mae canlyniadau'r broses gwerthuso swyddi yn gysylltiedig â'n system cyflog a graddio. Fe wnaethon ni sefydlu system cyflogau a graddio ym mis Mawrth 2012. Mae wedi ein helpu ni i roi cyflog i bobl mewn ffordd sy'n deg ac yn gyson.

Mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar gyflog pobl fel y math o swyddi y maen nhw'n dewis eu gwneud. Mae dynion a menywod yn aml yn dewis gwneud swyddi y mae dynion a menywod wedi bod yn eu gwneud yn draddodiadol. Gwahanu galwedigaethol rydyn ni'n galw hyn. Mae'n aml yn chwarae rhan yn y bwlch rhwng cyflog dynion a chyflog menywod – y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Fel rhan o Gynllun y Gweithlu, rydyn ni'n parhau i chwilio am ffyrdd o leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ers 2013, rydyn ni'n asesu swyddi newydd a swyddi sy'n newid trwy ein system gwerthuso swyddi. Fel rhan o hyn, rydyn ni'n meddwl am yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad y mae ar bobl eu hangen i wneud y swydd. Mae llawer o heriau fel hyn yn ein hwynebu wrth i ni ad-drefnu ein hadrannau. Mae defnyddio'r dull yma yn cadw'r strwythur cyflogau a graddio yn deg ac yn gyson.

Cynllun y Gweithlu (2013 – 2017)

Rydyn ni wedi sefydlu cynllun ar gyfer y gweithlu. Mae'r cynllun yma'n gwneud yn siŵr bod gyda ni:

- y bobl gywir;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

- gyda'r sgiliau cywir;
- yn y lle cywir;
- ar yr amser cywir.

Mae hyn yn ein helpu ni i barhau i ddarparu ein gwasanaethau ar adeg pan fo heriau ariannol mawr yn bodoli. Rydyn ni'n bwriadu gwneud yn siŵr bod cyfansoddiad ein gweithlu yn debyg i gyfansoddiad y gymuned leol o ran grwpiau gwarchodedig. Fel rhan o hyn, byddwn ni hefyd yn meddwl sut y gallwn ni ymdrin â'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau.

Rydyn ni wedi sefydlu ffordd o gofnodi nodweddion gwarchodedig ein staff. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n gallu cymharu ein hystadegau gydag ystadegau lleol a chenedlaethol i weld pa gynnydd rydyn ni'n ei wneud. Wedyn rydyn ni'n gallu cynllunio sut i wneud gwelliannau. Rydyn ni'n falch bod y bwloch cyflog rhwng y rhywiau yn llai nag o'r blaen i staff sy'n cael cyflog dan y strwythur cyflog a graddio Statws Sengl. Roedd bwloch cyflog o 9.5% o'i gymharu â bwloch cyflog o 10.94% yn 2011.

Gwybodaeth benodedig am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflogau

Rydyn ni wedi bod yn casglu data cyflogaeth am nifer o flynyddoedd. Rydyn ni wedi bod yn casglu gwybodaeth am y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- rhywedd;
- hil;
- anabledd;
- oedran.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Yn ystod y flwyddyn rydyn ni'n adrodd arni, rydyn ni wedi parhau i ddatblygu systemau newydd. Bydd hyn yn gadael i ni adrodd ar fwy o nodweddion gwarchoddedig yn y dyfodol. Byddwn ni'n gallu casglu a chofnodi gwybodaeth am y canlynol:

- cyfeiriadedd rhywiol;
- ailbennu rhywedd;
- hunaniaeth o ran rhywedd;
- hunaniaeth genedlaethol;
- crefydd neu ddaliadau
- statws priodasol.

Roedden ni am ganolbwyntio ar rai camau gweithredu allweddol. I'n helpu, fe wnaethon ni ddefnyddio canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Enw'r canllawiau yw 'Casglu Data Cydraddoldeb: Safonau wedi'u Cysoni ac Arfer Gorau'.

Fe wnaethon ni newid y ffurflen rydyn ni'n ei defnyddio i gasglu gwybodaeth am bobl pan ydynt yn ymgeisio am swyddi. Nawr rydyn ni'n gofyn am yr holl nodweddion gwarchoddedig ar y ffurflen. Gallwch weld y ffurflen yn Atodiad 3.

Fe wnaethon ni ddatblygu arolwg staff. Fe ddefnyddion ni hwn i holi staff am eu nodweddion gwarchoddedig. Fe wnaethon ni wella'r ffordd rydyn ni'n cofnodi'r wybodaeth yma. Mae gwneud hyn yn helpu i wella ein gwybodaeth am grwpiau gwarchoddedig o fewn ein gweithlu.

Rydyn ni wedi edrych ar yr wybodaeth rydyn ni wedi ei chasglu. Gallwch chi weld beth wnaethon ni ei ddarganfod yn Atodiad 4 ar ddiwedd yr adroddiad yma. Mae cynllun gweithredu hefyd (Atodiad 5). Mae'n dangos beth ydyn ni wedi ei wneud ers y flwyddyn ddiwethaf a beth fyddwn ni'n ei wneud i ymdrin â phryderon yn y dyfodol.

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Byddwn ni'n parhau â'r gwaith yma. Rydyn ni am allu adrodd ar yr holl nodweddion gwarchoddedig o'r flwyddyn nesaf. Ym mis Chwefror 2012, fe wnaethon ni sefydlu grŵp i wneud y gwelliannau hyn. I wneud hyn fe wnaethon ni'r canlynol:

- cytuno ar gynllun;
- edrych ar ganllawiau gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- mynychu gweithdai a gafodd eu rhedeg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- trafod gwelliannau a sut i adrodd ar y rhain.

Dyw'r holl wybodaeth y mae angen i ni ei chasglu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol ddim gyda ni. Y rheswm dros hyn yw:

- mae angen mwy o waith i ddiweddarau systemau adrodd;
- mae angen casglu data ychwanegol a chyfoes am nodweddion gwarchoddedig;
- roedd canllawiau cyfyngedig yn golygu bod yn rhaid i ni gael eglurhad o ran yr wybodaeth yr oedd yn rhaid i ni adrodd arni.

Hyd yn oed pan fyddwn ni'n gwneud y gwelliannau hyn, efallai na fyddwn ni'n cael yr wybodaeth y mae ei hangen arnon ni. Rydyn ni'n meddwl y bydd rhai pobl yn dewis peidio â dweud wrthyn ni am rai o'u nodweddion gwarchoddedig. Rydyn ni'n annog pobl i wneud hynny trwy egluro:

- pam ein bod ni'n gofyn am yr wybodaeth;
- sut y byddwn ni'n gallu defnyddio'r wybodaeth i ddiwallu eu hanghenion yn well.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Mae'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad yma'n dod o systemau yn yr Adran Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Ariannol. Mae hyn yn golygu bod yr wybodaeth mor gywir ac mor gyflawn â phosibl. Rydyn ni'n gwybod y bydd angen i ni barhau i weithio ar yr wybodaeth yma ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i ateb gofynion y ddyletswydd gyffredinol.

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Sut i gysylltu â ni

Os hoffech chi roi adborth i ni ar yr adroddiad hwn, dyma ein manylion cyswllt:

Linda Brown neu Nicola Hinton
Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol
Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cwsmeriaid
Y Swyddfeydd Dinesig
Holton Road
Y Barri
CF63 4RU

Rhif ffôn: 01446 709362

E-bost: ljbrown@valeofglamorgan.gov.uk neu nhinton@valeofglamorgan.gov.uk

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014**

Atodiad 1

**Monitro Cydraddoldebau o ran Darparu
Gwasanaethau**



Felly ynglŷn â beth mae hwn?

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 â'r holl gyfreithiau gwrthwahaniaethu blaenorol ynghyd gan eu disodli ag un Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi **sylw dyledus** i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl sydd ddim yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl sydd ddim yn ei rhannu.

Y ddyletswydd gyffredinol yw'r enw ar y gofynion yma.

Mae rhoi **sylw dyledus** yn golygu:

- bod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd;
- gwneud yn siŵr bod gyda ni dystiolaeth ddigonol (gan gynnwys o waith ymgynghori, os yw'n briodol) i'n galluogi ni i ddeall effeithiau posibl ein penderfyniadau ni ar wahanol bobl sydd wedi'u cynnwys gan y ddyletswydd;
- ystyried y materion perthnasol yn fwriadol ac yn weithredol, mewn ffordd sy'n dylanwadu ar brosesau penderfynu;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

- gwneud hyn cyn gwneud penderfyniad ac ar yr amser pan fo penderfyniad yn cael ei wneud, nid ar ôl iddo gael ei wneud;
- bod yn ymwybodol bod y ddyletswydd ddim yn gallu cael ei dirprwyo i drydydd partiön sy'n cyflawni swyddogaethau ar ein rhan.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- oedran;
- anabledd;
- rhywedd;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd;
- crefydd neu ddaliadau – gan gynnwys diffyg daliadau;
- cyfeiriadedd rhywiol.

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond o ran y gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Er mwyn i awdurdodau cyhoeddus ateb gofynion y ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r dyletswyddau penodol y mae'n rhaid i gyrff sydd wedi'u rhestru yng Nghymru eu cyflawni. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau ar y dyletswyddau penodol yma. Maen nhw'n cynnwys canllawiau ar wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.

Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol ar adegau penodol, sef:

- wrth asesu polisïau ac arferion o ran eu heffaith ar grwpiau gwarchoddedig (asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb);
- wrth asesu ein gwaith a'n gweithgareddau o ran cyrraedd tri nod y ddyletswydd gyffredinol;

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

- wrth baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb (cyfeiriwch at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol);
- wrth wneud neu ddiwygio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Y canlyniad rydyn ni'n ei ddymuno yw bod gyda ni'r wybodaeth orau i'n galluogi ni i wneud y canlynol:

- cynhyrchu polisiâu sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- pennu amcanion ystyrlon;
- cyflawni asesiadau o'r effaith sy'n seiliedig ar wybodaeth lawn.

Mae cyhoeddi'r wybodaeth yma'n helpu i wneud y broses o ddatblygu polisi yn fwy tryloyw ac i egluro sut a pham y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau anodd am adnoddau.

Roedd y bobl y gwnaethon ni ymgynghori gyda nhw ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn teimlo bod casglu data monitro effeithiol yn hanfodol i adnabod achosion o wahaniaethu. Roedden nhw'n pwysleisio bod yn rhaid ei gwneud yn glir o'r dechrau pam ein bod yn casglu data, ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio, a bod yn rhaid defnyddio'r un broses a chategoriâu ar draws yr holl wasanaethau.

Dyw'r canllawiau hyn ddim yn berthnasol i ddata ar gyflogaeth, cyflogau, a hyfforddiant, gan fod canllawiau ar wahân ar gyfer y math yma o ddata.

Felly beth mae'n rhaid i mi ei wneud?

Mae angen i chi adnabod gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb yn eich maes gwasanaeth. Fel rhan o'r broses hon bydd angen i chi asesu sut y gall eich gwaith a'ch gweithgareddau chi helpu i gyrraedd tri nod y ddyletswydd gyffredinol. Mae'n ofynnol i chi hefyd gyhoeddi eich rhesymau dros beidio â

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

chasglu gwybodaeth berthnasol rydych chi wedi ei hadnabod ond sydd ddim gyda chi, hynny yw bylchau mewn data.

Mae tystiolaeth ddefnyddiol yn gallu cynnwys ymchwil feintiol ac ystadegau. Er enghraifft:

- y Cyfrifiad ac arolygon;
- ymchwil ansoddol, fel adborth o grwpiau ffocws;
- data gweinyddol;
- gwybodaeth fonitro am ddefnyddwyr gwasanaethau;
- gwybodaeth fonitro am y gweithlu;
- adborth a chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaethau, fel arolygon bodlonrwydd;
- gwybodaeth am y bobl sydd ddim yn defnyddio gwasanaethau yn ogystal â'r bobl sydd yn eu defnyddio.

Pa bynnag ffynonellau a dulliau rydych chi'n ystyried eu bod yn addas ar gyfer casglu data ar gydraddoldebau, mae'n bwysig bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r Cyngor.

Mae'r ffurflen monitro data sydd wedi'i hatodi yn dampled ar gyfer casglu data ar gydraddoldebau pan fo arolygon yn cael eu cynnal. Mae'r ffurflen hon yn dilyn categorïau Cyfrifiad Cenedlaethol 2011, canllawiau arfer da a chyngor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl cymharu rhwng y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r boblogaeth leol. Bydd yn helpu i adnabod ble mae bylchau o ran pobl yn defnyddio gwasanaethau.

Pan fyddwch chi'n anfon holiaduron neu arolygon, dylech ddarparu gwybodaeth ynghylch sut y bydd y data'n cael ei storio, sut y bydd yn cael ei

Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

ddefnyddio a phwy fydd yn gallu cael mynediad ato. Os yw'n bosibl gwneud cysylltiad rhwng gwybodaeth ac unigolyn, dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig yr unigolyn y byddwch chi'n gallu storio'r wybodaeth, ac mae'n bosibl i'r unigolyn roi'r caniatâd yma ar ffurflen fonitro.

Mae mwy o wybodaeth am ddiogelu data ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

http://www.ico.gov.uk/for_organisations/data_protection.aspx

Bydd y Ddeddf Diogelu Data yn drech na Deddf Cydraddoldeb 2010 os bydd materion yn codi o ran casglu a phrosesu data ar gydraddoldeb. Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn diffinio rhai mathau o ddata fel "data personol sensitif" sy'n cael ei reoleiddio'n fwy ac sy'n gallu cael ei brosesu dim ond dan rai amgylchiadau penodol. Mae data personol yn sensitif os yw'n cynnwys unrhyw un o'r mathau canlynol o wybodaeth am unigolyn byw, adnabyddadwy:

- tarddiad hiliol neu ethnig;
- barn wleidyddol;
- daliadau crefyddol;
- aelodaeth o undeb llafur;
- iechyd corfforol neu iechyd meddwl;
- bywyd rhywiol;
- troseddau y mae'r person wedi'u cyflawni neu droseddau honedig.

